OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 969 (Cy.86)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Wedi'i wneud	- -	*21 Mawrth 2007*
Yn dod i rym	- -	*21 Ebrill 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 100F(3), a 100I(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) a thrwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 254 o'r Ddeddf honno a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(**2**):

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Ebrill 2007.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Hawliau mynediad ychwanegol at ddogfennau ar gyfer aelodau o brif gynghorau

2.—(1) Diwygier adran 100F o Ddeddf 1972 (hawliau mynediad ychwanegol at ddogfennau ar gyfer aelodau o brif gynghorau) fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1), yn lle "subsections (2) to (2C)" rhodder "subsections (2) to (2E)".

(3) Yn lle is-adran (2)C rhodder —

"(2C) In relation to a principal council in Wales, subsection (1) above does not require the document to be open to inspection if it appears to the proper officer that it discloses exempt information.".

(4) Ar ôl is-adran (2C) rhodder —

"(2D) But subsection (1) above does require (despite subsection (2C) above) the document to be open to inspection if the information is information of a description for the time being falling within —

(**1**) 1972 p.70. Mewnosodwyd adrannau 100F a 100I gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985 (p.43), adran 1(1) ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2006/88 Gorchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2006.

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(a) paragraph 14 of Schedule 12A to this Act (except to the extent that the information relates to any terms proposed or to be proposed by or to the authority in the course of negotiations for a contract), or

(b) paragraph 17 of Schedule 12A to this Act.

(2E) In subsection (2D) above, "the authority" has the meaning given in paragraph 22(2) of Schedule 12A to this Act.".

(5) Yn is-adran (3), yn lle "subsections (2) to (2C)" rhodder "subsections (2) to (2E)".

Mynediad at Wybodaeth: gwybodaeth esempt

3. Yn lle Rhannau 4 i 6 o Atodlen 12A i Ddeddf 1972(**3**) (Gwybodaeth Esempt) rhodder y testun a geir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

21 Mawrth 2007

(**3**) Mewnosodwyd Atodlen 12A gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, adran 1(2) ac Atodlen 1, Rhan 1 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2006/88 Gorchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2006.
(**4**) 1998 p.38.